



---

**CYFLEU TAPIAU A GWAITH PAPUR AC IAWNDAL PENODEDIG**  
**Ionawr 2019.**

---



Yn gyffredinol ar hyn o bryd mae'r drefn yn caniatáu codi ffi os yw deunydd cyfleu yn hwyr neu'n wallus yn seiliedig ar swm o £100 y dydd yn achos tapiâu/ffeiliau cynnwys a £50 y dydd ar gyfer gwaith papur.

Er mwyn symleiddio'r drefn a rhoi gwell arweiniad o'r symiau a allai fod yn ddyledus, mi fydd S4C yn mabwysiadau'r canllawiau canlynol o Ionawr 7fed 2019 os oes angen dychwelyd cynnwys neu os yw'r gwaith papur yn hwyr.

Fe'ch atgoffir o'r angen i gyfeirio pob cais i newid dyddiad cyfleu rhaglen at y tîm Materion Busnes er mwyn prosesu'r cais drwy'r cyfrif e-bost Cyfleu: [cyfleu@s4c.cymru](mailto:cyfleu@s4c.cymru). Bydd angen i'r ebost ddilyn y templed a welir isod yn atodiad 1 er mwyn deall natur y cais yn llawn a gwneud penderfyniad têtg. Rhaid hawlio'r caniatad i newid dyddiad cyfleu o leiaf 20 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyfleu gwreiddiol a nodir yn eich cytundeb â S4C.

Bydd ymateb i'r cais o fewn pedwar diwrnod gwaith yn cadarnhau a fydd y newid yn bosib ai pheidio. Bydd hyn yn sicrhau bod y cwmni cynhyrchu ac S4C yn glir pryd bydd disgwyl i'r cynnwys cael eu gyfleu i S4C ac hefyd yn sicrhau fod gofynion a dyddiadau cyfleu agweddau allweddol eraill megis gwaith papur hefyd yn cael ei newid o fewn cyfundrefn mewnol S4C.

Nid oes sicrwydd fod modd derbyn caniatad i newid y dyddiad cyfleu gwreiddiol ac mae rhaid dilyn y gyfundrefn uchod er mwyn cael ystyriaeth, hyd yn oed os oes sgysiau yn digwydd gyda gynrychiolydd o S4C.

Byddwn yn monitro'r sefyllfa cyfleu ac yn ail edrych ar y drefn o godi ffi dyddiol am gyfleu tapiâu neu ffeiliau cynnwys hwyr yn gwarterol. Yn y cyfamser byddwn yn parhau i gadw'r hawl i ddiwynu iawndal ariannol penodedig o £100 y diwrnod o ran y Copi Darlledu terfynol (*Master*).

### Dychwelyd Tapiâu

Yn hytrach na swm dyddiol os bydd S4C yn gorfod gyrru tapiâu/ffeil yn ôl at y cynhyrchydd, bydd y swm yn ddibynnol ar union natur y gwaith ychwanegol fydd angen i S4C ei wneud. Mae'r tabl isod yn nodi'r ffioedd fydd yn cael eu codi.

<b>Costau Wrth Ail Gyfleu Deunydd</b>		
<b>Ail Llwytho i BSM/Dalet</b>		
	Hyd at 30'	60' a drosodd
Tap HD, SD neu Ffeil	£75+TAW	£150+TAW
<b>Ail Greu ar gyfer Gwasanaethau Mynediad (Isdeitlo, Arwyddo a Llun Ddisgrifio)</b>		
	Hyd at 30'	60' a drosodd
Tap HD, SD neu Ffeil	£75+TAW	£150+TAW
<b>Uchod yn cynnwys elfennau staff/techengol/ gweinyddol</b>		

### Gwaith papur

Ar hyn o bryd mae S4C yn nodi y gellir codi hyd at £50 y dydd am bob diwrnod y mae'r wybodaeth am y rhaglen(ni) yn hwyr. O hyn ymlaen, lle bo elfen o'r gwaith papur angenrheidiol heb ei gyfleu i S4C o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad cyfleu yn y gytundeb, bydd gan S4C yr hawl i gymryd pob cam

rhesymol er mwyn sicrhau derbyn y gwaith papur priodol ar gost y cwmni. Fe fydd gan S4C yr hawl i naill ai ddiynnu'r costau rhesymol yma oddi ar unrhyw arian sy'n daladwy i'r cwmni neu ddanfon anfoneb i'r cwmni am y costau. Yr uchafswm y bydd S4C yn codi bydd £500 am bob rhaglen/bennod slot 30 munud (pro rata) lle nad yw'r wybodaeth angenrheidiol wedi ei gyfleu.

### Canllaw Gofynion Cyfleu

Mae'r canllaw sy'n rhoi'r cefndir i'r angen am gyfleu yn brydlon ynghyd â nodiadau esboniadol i'r hyn sydd yn ofynnol yn y gytundeb wedi ei ddiweddarau. Mae copi i'w ganfod ar y [wefan cynhyrchu](#).

### ATODIAD 1:

TEMPLED Ebst caniatad newid dyddiad cyfleu:

Rydym am wneud cais ar gyfer newid dyddiad cyfleu rhaglen yn wahanol i'r hyn a gytunwyd yn y cytundeb wrth ystyried y wybodaeth isod.

Enw'r cynhyrchiad:	
I-number y cynhyrchiad:	
Rheswm dros newid y dyddiad cyfleu:	
Oes trafodaethau wedi bod gyda'r tîm comisiynu ynglŷn â'r mater: (Os ie - gyda phwy a phryd?)	
Dyddiad cyfleu ar hyn o bryd:	
Dyddiad arfaethedig cyfleu:	

We would like to request a new delivery date than previously agreed in the contract based on the information below:

Production title:	
Production I-number:	
Reason for change in delivery date:	
Has there been prior discussions with the comisioning team regarding the matter? (If yes – with who and when?)	
Current delivery date:	
Proposed new delivery date:	

